# Cynllun Gweithredu ar Anghymesuredd

*Tachwedd 2024*

CPS

**Cyflwyniad i'r Cynllun Gweithredu**

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wrth galon y system cyfiawnder troseddol, ein rôl ni yw penderfynu a ddylid cyhuddo rhywun o'r troseddau mwyaf difrifol. Mae'r penderfyniadau a wnawn yn cael effaith ddofn ar fywydau dioddefwyr a diffynyddion, ac felly mae'n hanfodol bod tegwch ac annibyniaeth yn gonglfeini i bwy ydym ni a sut rydym ni'n gwneud y penderfyniadau hyn.

Cydnabyddir yn eang y ceir cynrychiolaeth anghymesur o leiafrifoedd ethnig ar draws y system cyfiawnder troseddol gyfan. Mae ymchwil cynhwysfawr wedi dweud wrthym fod y gwahaniaeth hwn yn cael ei adlewyrchu yn ein cyfraddau cyhuddo - gyda phobl o leiafrifoedd ethnig sydd dan amheuaeth yn fwy tebygol o gael eu cyhuddo o drosedd tebyg na phobl wyn Prydeinig sydd dan amheuaeth.

Rhaid inni wneud yn well. Rhaid inni beidio â bod yn hunanfodlon – byddwn yn cymryd camau pendant i fynd i'r afael ag anghymesuredd a sicrhau newid.

Felly, rydym wedi creu cynllun gweithredu sy'n cyflwyno rhaglen waith gynhwysfawr i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol anghymesuredd a gwreiddio newid ystyrlon ar draws Gwasanaeth Erlyn y Goron.

Cafodd y cynllun gweithredu hwn ei greu ar y cyd â chydweithwyr a phartneriaid allanol. At hynny, mae'r camau rydym yn eu cymryd wedi cael eu llywio gan ymchwil cynhwysfawr a gwaith craffu annibynnol. Drwy weithredu ar sail y dystiolaeth, gallwn fod yn hyderus y bydd ein gwaith yn arwain at newid cynaliadwy.

Mae gan bob un rhan o Wasanaeth Erlyn y Goron rôl i'w chwarae, ac mae'r cynllun gweithredu yn disgrifio dull sy'n cael ei ddefnyddio ar draws y sefydliad. Bydd y cynllun hwn yn ein galluogi i feithrin diwylliant ac arferion gwrth-hiliol, gan ddileu rhagfarn hiliol yn ein penderfyniadau a gweithio gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol eraill i roi sylw i anghymesuredd hiliol ar draws y system.

Dim ond dechrau ein siwrnai yw'r cynllun gweithredu hwn. Byddwn yn dal ati i weithio gyda'n staff, ein cymunedau a'n partneriaid i adeiladu ar ein cynnydd, ac i ddal i graffu arnom ein hunain o safbwynt y mater pwysig hwn.

# Ein Nod Cyffredinol

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn **sefydliad gwrth-hiliol, sy'n dileu rhagfarn hiliol** o'n prosesau gwneud penderfyniadau ac yn gweithio gydag asiantaethau eraill y system cyfiawnder troseddol i roi sylw i gymesuredd hiliol ar draws y system ac i **ennyn hyder y cyhoedd.**

1

Rydym yn deall y gall rhagfarn fod yn bresennol yn ein holl waith ac awn ati'n fwriadol i roi sylw i hynny.

2

Mae Gweithredu'r Cod yn Deg yn arwain at benderfyniadau cyhuddo cymesur.

3

Rydym yn herio rhagfarn hiliol wrth wneud penderfyniadau ar draws y system cyfiawnder troseddol.

# Canlyniadau

**1**

i. Rydym yn deall ac yn sylweddoli sut gall rhagfarn ddod i'r amlwg yn ein holl waith.

ii. Mae ein pobl yn deall profiad bywyd ac effaith anghymesuredd hiliol wrth wneud penderfyniadau ar ein cymunedau.

iii. Mae ein pobl yn ddiwylliannol ymwybodol ac yn sensitif, gan adlewyrchu'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu ar bob lefel ac ym mhob man.

iv. Mae ein harweinwyr a'n rheolwyr yn rôl-fodelau ac yn eiriolwyr atebol i'n gwaith ar anghymesuredd.

**2**

i. Mae ein Cod, ein prosesau a'n canllawiau yn sicrhau tegwch drwy weithredu yn erbyn rhagfarn.

ii. Caiff ein gwaith i roi sylw i anghymesuredd ei lywio drwy ddadansoddi a deddfwriaeth gydraddoldeb.

iii. Mae ein penderfyniadau'n dryloyw ac yn agored i graffu arnynt.

iv. Mae ein Harweinwyr a'n Rheolwyr yn cefnogi erlynwyr i wneud penderfyniadau cyhuddo cymesur a theg.

**3**

i. Mae gennym yr hyder a'r gallu i herio rhagfarn yn fewnol a gyda phartneriaid allanol.

ii. Rydym yn adnabod rhagfarn hiliol bosibl yn y deunyddiau a ddaw i law ac yn ein penderfyniadau cyhuddo, drwy ein harfer o ddefnyddio data ac offer digidol.

iii. Rydym yn mynd ati i ymgysylltu â'n partneriaid er mwyn herio a dileu rhagfarn hiliol.

iv. Gyda'n gilydd, rydym yn adfer hyder y cyhoedd yn y system cyfiawnder troseddol, yn enwedig gyda'r cymunedau hynny y mae anghymesuredd yn fwy tebygol o effeithio arnynt.

# Nod 1

## Rydym yn deall y gall rhagfarn fod yn bresennol yn ein holl waith ac awn ati'n fwriadol i roi sylw i hynny.

| Canlyniad | Cam gweithredu |
|---|---|
| *i. Rydym yn deall ac yn sylweddoli sut gall rhagfarn ddod i'r amlwg yn ein holl waith.* | Darparu pecyn dysgu i gefnogi'r gwaith o ganfod rhagfarn bosibl mewn gwaith achosion a meithrin sgiliau ein herlynwyr i roi sylw iddo.<br><br>24/25 Ch4 i 25/26 Ch3 |
| | Creu astudiaethau achos newydd a datblygu'r rhai presennol gydag enghreifftiau ymarferol o sut gall rhagfarn ddod i'r amlwg ar wahanol gamau o waith achosion, i'w cynnwys mewn cynhyrchion dysgu perthnasol, i helpu ein staff i gysyniadu'r gwaith hanfodol hwn.<br><br>24/25 Ch4 ac ymlaen |
| | Lleihau'r posibilrwydd bod rhagfarn yn ymddangos yn ein gwaith achosion drwy adolygu a dadansoddi ymchwil ar ffyrdd effeithiol o weithio i leihau rhagfarnau pobl, er mwyn llywio'r gwaith o greu cynhyrchion dysgu mewnol.<br><br>24/25 Ch3 i 25/26 Ch2 |
| | Creu cyfres o gynhyrchion sy'n crynhoi'r ymchwil i anghymesuredd er mwyn i'n holl staff ddeall a dysgu oddi wrthynt, gan sicrhau eu bod yn gallu defnyddio'r elfennau allweddol y maent wedi'u dysgu wrth eu gwaith.<br><br>24/25 Ch3 i 26/27 Ch4 |

| | |
|---|---|
| *ii. Mae ein pobl yn deall profiad bywyd ac effaith anghymesuredd hiliol wrth wneud penderfyniadau ar ein cymunedau.* | Creu cynlluniau cyfathrebu mewnol cynhwysol i rannu profiad bywyd pobl o fudiadau cymunedol ethnig leiafrifol gyda'r staff.<br><br>24/25 Ch3 i Ch4 |

| | |
|---|---|
| *iii. Mae ein pobl yn ddiwylliannol ymwybodol ac yn sensitif, gan adlewyrchu'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu ar bob lefel ac ym mhob man.* | Gwella cynrychiolaeth staff o leiafrifoedd ethnig mewn rolau uwch reolwyr, lle mae'r dystiolaeth yn dangos tangynrychiolaeth, drwy weithgareddau recriwtio, cadw a datblygu wedi'u targedu.<br><br>Gweithgaredd parhaol, parhaus |
| *iv. Mae ein harweinwyr a'n rheolwyr yn rôl-fodelau ac yn eiriolwyr atebol i'n gwaith ar anghymesuredd.* | Sefydlu amcan anghymesuredd ar gyfer yr holl uwch arweinwyr, gan greu amgylchedd yn ein sefydliad lle mae arweinwyr cynhwysol ar y rheng flaen yn rhoi blaenoriaeth i roi sylw i ragfarn hiliol ac yn hyrwyddo hynny.<br><br>24/25 Ch3 i Ch4 |
| | Cwmpasu, dewis a sefydlu mesurau ar gyfer monitro anghymesuredd yn Ardaloedd Gwasanaeth Erlyn y Goron.<br><br>25/26 Ch1 i Ch4 |
| | Llunio a hyrwyddo datganiad gwrth-hiliol sefydliadol, wedi'i gymeradwyo gan ein Grŵp Gweithredol, gan ein hymrwymo i fynd i'r afael â gwahaniaethu.<br><br>24/25 Ch3 i Ch4 |

# Nod 2

## Mae Gweithredu’r Cod yn deg yn arwain at benderfyniadau cyhuddo cymesur.

| Canlyniad | Cam gweithredu |
| --- | --- |
| *i. Mae ein Cod, ein prosesau a’n canllawiau yn sicrhau tegwch drwy weithredu yn erbyn rhagfarn.* | Diwygio’r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron er mwyn sicrhau bod pob erlynydd yn mynd ati i adnabod a rhoi sylw i ragfarn wrth iddynt wneud penderfyniadau gyda’u holl waith achosion.<br><br>Sefyllfa interim erbyn 25/26 Ch1, gwerthuso ac adolygu erbyn 25/26 Ch4 |
| | Sefydlu dulliau ar gyfer adnabod a rhoi sylw i ragfarn yn egwyddorion ein strategaeth achosion.<br><br>24/25 Ch3 i 25/26 Ch3 |
| *ii. Caiff ein gwaith i roi sylw i anghymesuredd ei lywio drwy ddadansoddi a deddfwriaeth gydraddoldeb.* | Gweithio gyda phartneriaid yn yr heddlu ac ym maes cyfiawnder troseddol i wella’r trefniadau ar gyfer cofnodi data ar ddemograffeg ac ethnigrwydd er mwyn gallu dadansoddi data’n gadarn, fel drwy gyd-ymrwymiad data.<br><br>24/25 Ch4 i 25/26 Ch4 |
| | Adolygu a diweddaru ein hyfforddiant ar Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng ngoleuni canlyniadau’r ymchwil i anghymesuredd.<br><br>24/25 Ch4 i 25/26 Ch3 |

<table>
<tr><td rowspan="3">iii. Mae ein penderfyniadau’n dryloyw ac yn agored i graffu arnynt.</td><td>Fel rhan o broses Sicrhau Ansawdd Unigol erlynwyr sy’n helpu i ysgogi gwelliannau mewn gwaith achosion, cynnwys cwestiynau ynghylch sut maen nhw’n herio ac yn rhoi sylw i ragfarn bosibl mewn gwaith achosion.<br><br>25/26 Ch1 i 26/27 Ch1</td></tr>
<tr><td>Bydd pob achos o ladd ac ymgais i ladd fel cyd-fenter yn destun paneli rheoli achosion a chynllun monitro cenedlaethol a fydd yn adrodd ar ddata’n flynyddol.<br><br>24/25 Ch1 ac ymlaen</td></tr>
<tr><td>Bydd holl Ardaloedd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cynnull Paneli Craffu a Chynnwys Lleol ar y Cyd bob blwyddyn ac yn galluogi cynrychiolwyr cymunedol i graffu ar ein gwaith yn y maes hwn.<br><br>24/25 Ch3 ac ymlaen</td></tr>
<tr><td></td><td>Cynnwys gwaith yr Ardal ar anghymesuredd fel rhan o Adolygiadau Perfformiad yr Ardal i fonitro cynnydd a sicrhau gwelliant parhaus.<br><br>25/26 Ch1 i Ch4</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| *iv. Mae ein Harweinwyr a'n Rheolwyr yn cefnogi erlynwyr i wneud penderfyniadau cyhuddo cymesur a theg.* | |
| | Adolygu ein prosesau presennol i sicrhau bod ein herlynwyr yn teimlo eu bod yn gallu bod yn hyderus i godi pryderon ynghylch penderfyniadau am waith achosion y gallent fod yn anghymesur.<br><br>24/25 Ch4 i 25/26 Ch2 |

# Nod 3

**Rydym yn <u>herio</u> rhagfarn hiliol wrth wneud penderfyniadau ar draws y system cyfiawnder troseddol.**

| Canlyniad | Cam gweithredu |
|---|---|
| *i. Mae gennym yr hyder a'r gallu i herio rhagfarn yn fewnol a gyda phartneriaid allanol.* | Gwneud rhagor o ymchwil i ddiwylliant ein sefydliad er mwyn deall sut i fynd i'r afael â rhagfarn hiliol yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron, gan arwain at staff sydd â'r hyder a'r gallu i herio a thrafod rhagfarn ac anghymesuredd.<br><br>24/25 Ch4 i 25/26 Ch4 |
| | Pwyso a mesur a datblygu adnoddau i gefnogi erlynwyr i gael sgyrsiau am hil, er mwyn lleihau'r potensial am anghymesuredd wrth wneud penderfyniadau.<br><br>24/25 Ch4 i 25/26 Ch4 |
| *ii. Rydym yn adnabod rhagfarn hiliol bosibl yn y deunyddiau a ddaw i law ac yn ein penderfyniadau cyhuddo, drwy ein harfer o ddefnyddio data ac offer digidol.* | Pwyso a mesur y defnydd o adnoddau digidol i ganfod tueddiadau y gallent fod yn niweidiol ar draws achosion.<br><br>25/26 Ch1 i Ch4 |
| | Defnyddio offer digidol i gefnogi erlynwyr i ganfod rhagfarn bosibl mewn tystiolaeth, a'u hadolygiadau eu hunain.<br><br>26/27 Ch1 i Ch4 |

| | |
|---|---|
| *iii. Rydym yn mynd ati i ymgysylltu â’n partneriaid er mwyn herio a dileu rhagfarn hiliol.* | Sefydlu proses glir er mwyn i erlynwyr allu codi pryderon ynghylch rhagfarn hiliol bosibl mewn gwaith achosion, yn fewnol a gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol.<br><br>25/26 Ch1 i Ch3 |
| | Sefydlu Bwrdd Anghymesuredd Hiliol ar y cyd rhwng yr NPCC a Gwasanaeth Erlyn y Goron i sicrhau cydweithio agos â Chynllun Gweithredu ar Hil yr Heddlu.<br><br>24/25 Ch1 ac ymlaen |
| | Byddwn yn monitro amrywiaeth eiriolwyr erlyn allanol, gan gymryd rhan mewn cynlluniau a gweithgareddau sydd â’r nod o wella cynrychiolaeth ethnig ar Banel Eiriolwyr Gwasanaeth Erlyn y Goron. Bydd hyn yn cynnwys monitro sut caiff gwaith ei ddyrannu a’r ffioedd a delir.<br><br>24/25 Ch1 i 25/26 Ch4 |
| *iv. Gyda’n gilydd, rydym yn adfer hyder y cyhoedd yn y system* | Cysylltu â chymunedau i godi ymwybyddiaeth o sut mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn mynd i’r afael ag anghymesuredd.<br><br>24/25 Ch3 ac ymlaen |
| | |

| | |
|---|---|
| *cyfiawnder troseddol, yn enwedig gyda'r cymunedau hynny y mae anghymesuredd yn fwy tebygol o effeithio arnynt.* | Adolygu ac ymgynghori'n gyhoeddus ar ein polisi ar 'gangiau' a defnyddio 'dril' fel tystiolaeth.<br><br>24/25 Ch4 i 25/26 Ch3 |
| | Sefydlu strategaeth gyfathrebu i hybu gwaith y cynllun gweithredu a meithrin hyder y cyhoedd yn ein gwaith i fynd i'r afael ag anghymesuredd.<br><br>24/25 Ch3 i Ch4 |
| | Cymryd rhan yn rhaglen 10,000 o Interniaid Du Cyngor y Bar, drwy gynnig cyfleoedd profiad gwaith i raddedigion ac Israddedigion Du nad oes ganddynt gynrychiolaeth deg yn y Bar ar hyn o bryd.<br><br>25/26 Ch1 i Ch4 |